



Teitl y gweithgaredd:	Y Gadair Goch
Disgrifiad:	Mae'r dysgwyr yn cymryd tro i chwarae rhan Guto Ifans yn y Gadair Goch tra bydd y dysgwyr eraill yn holi cwestiynau iddo.
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Sgîl Rhaglen Astudio posib:	Llafaredd> Siarad, Gwranddo
Testun T. Llew Jones	<i>Y Gelyn ar y Trên</i>
Offer angenrheidiol:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Copïau o bennod gyntaf <i>Y Gelyn ar y Trên</i></li><li>• Sbienddrych (dewisol)</li></ul>
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Adolygwch ddechrau nofel <i>Y Gelyn ar y Trên</i> gyda'r dysgwyr.</li><li>• Gellir manteisio ar y cyfle i wneud atgoffa'r dysgwyr ei bod hi'n bwysig cadw draw o draciau trenau.</li><li>• Trafodwch gyda'r dysgwyr sut bydden nhw'n teimlo petaen nhw yn esgidiau Guto.</li><li>• Dewiswch ddysgwr i eistedd o flaen y dosbarth yn y Gadair Goch gan esbonio y bydd yn rhaid iddo ymateb, fel y tybia y byddai Guto wedi ymateb, i gwestiynau gan y dysgwyr eraill. Gellir rhoi sbienddrych o amgylch ei gwddf os oes rhai gyda chi.</li><li>• Gellir atgoffa'r dysgwr y bydd yn rhaid defnyddio'r ffurfiau 'Es i', 'Gwelais i'.</li><li>• Bydd y dysgwyr eraill yn gofyn cwestiynau iddo/i ynglŷn â sut roedd Guto yn teimlo, beth roedd e'n bwriadu ei wneud ayyb.</li><li>• Bydd rhaid defnyddio tipyn o ddychymyg wrth ateb y cwestiynau.</li></ul>
Gweithgareddau gwahaniaethol:	Gellir gwneud y gweithgaredd mewn parau neu mewn grwpiau bychan yn hytrach na gyda'r dosbarth cyfan.